

Achub y Plant

Ein gwaith yng Nghymru



Llun: Jonathan Hyams / Achub y Plant



Achub y Plant
Save the Children

savethechildren.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig Cymru a Lloegr (213890) Yr Alban (SC039570) ac Ynys Manaw (199)

Gellir gweld ein Polisi Preifatrwydd [yma](#). Cymerwch amser i ddarllen trwy'r manylion ynghylch sut rydym yn casglu, defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth. Cysylltwch â mi unrhyw bryd os hoffech newid y ffordd yr ydym yn cysylltu â chi neu os hoffech roi'r gorau i glywed oddi wrthym yn gyfan gwbl.



Registered with
**FUNDRAISING
REGULATOR**

ACHUB Y PLANT CYMRU

Rydym yn credu bod gan bob plentyn yr hawl i blentyndod diogel, iach a hapus.

Mae blynyddoedd cynnar bywyd plentyn yn ffurfio eu personoliaeth a'u sgiliau ac yn llunio sylfaen eu dyfodol. Dyma'r amser sydd yn cynnig y cyfleoedd mwyaf ar gyfer dysgu a datblygu, gan helpu i lunio'r math o bobl yr ydym yn tyfu i fyny i fod. Fodd bynnag, gall tlodi roi pwysau eithriadol ar deuluoedd a'i wneud yn anoddach i rieni chwarae a dysgu gyda'u plant a darparu popeth sydd ei angen arnynt i dyfu i fyny'n hapus ac yn iach.

Mae tlodi ar gynydd ar draws y DU ac mae gan Gymru y lefel tlodi plant uchaf o'i chymharu â'r holl wledydd eraill, gyda bron 1 mewn 3 o blant yn tyfu i fyny o dan ei afael. Mae trasiedi gynyddol tlodi plant yn y DU wedi cael ei dwysáu gan bandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw. Mae wedi gadael y plant mwyaf agored i niwed a'u teuluoedd yn wynebu caledi cynyddol.

Mae angen i ni i gyd weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Yn ystod y blynyddoedd i ddod trwy ein gwaith, byddwn yn ymdrechu i leihau nifer y plant sydd yn tyfu i fyny mewn tlodi yng Nghymru trwy weithio mewn partneriaeth ag eraill, gwrandao ar y dystiolaeth ddiweddaraf, ac yn bwysicach, gwrandao ar leisiau plant a theuluoedd.

SUT RYDYM YN GWEITHIO

Yn Achub y Plant Cymru rydym yn seilio ein gwaith ar yr egwyddorion arweiniol canlynol:

- Rydym yn dod â phobl ynghyd ac yn gwneud plant yn ganolog i'r hyn yr ydym yn ei wneud.
- Rydym yn datblygu perthynas gydweithredol, ddibynadwy gyda phartneriaid sefydledig mewn cymunedau.
- Rydym yn gwrandao ar brofiadau bywyd plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi.
- Rydym yn codi lleisiau plant a theuluoedd trwy ein perthynas â llywodraeth leol a chenedlaethol, a'r cyhoedd ehangach trwy ein gwaith yn y cyfryngau.

"Trwy ein rhaglen waith, cydweithredu cymunedol, cyfranogiad plant, ac eiriolaeth, byddwn yn creu newid arloesol a chynaliadwy er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfleoedd cyfartal ac yn mwynhau'r dechrau gorau mewn bywyd."

- Melanie Simmonds, Pennaeth Achub y Plant Cymru



Llun: Hana Adcock / Achub y Plant

CEFNOGWCH EU

DYFODOL



Llun: Francesca Jones / Save the Children

YR HYN YR YDYM YN EI WNEUD

Gweithio gyda'n gilydd i helpu plant

Gwyddom fod cydberthynas yn bwysig ac y gall gweithio gyda gweithwyr proffesiynol arwain at newidiadau cadarnhaol i deuluoedd. Ynghyd â'n partneriaid, rydym wedi yn gweithio mewn cymunedau ar draws Cymru i gefnogi teuluoedd yn ystod blynyddoedd cynnar tyngedfennol eu plant.

Mae gennym ddiddordeb arbennig yn archwilio ymagweddau mewn ardaloedd o amddifadedd uwch lle gwyddom fod plant a theuluoedd yn wynebu mwy o heriau.

Cymuned Addysg Gynnar Betws

Nod ein rhaglen Cymunedau Addysg Gynnar yn y DU yw gwella canlyniadau addysg gynnar i blant sydd yn tyfu i fyny mewn tlodi yng Nghymru. Yn y cymunedau hyn rydym yn archwilio sut gall cydweithio trwy ymagwedd system gyfan – uno a chryfhau gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli – newid y ffordd y mae plant sydd yn tyfu i fyny mewn tlodi mewn cymuned yn cael eu cynorthwyo i ddysgu a datblygu.

Mae Cymuned Addysg Gynnar Betws (CAGB) yn bartneriaeth o weithwyr proffesiynol lleol, grwpiau cymunedol, sefydliadau, ysgolion, a theuluoedd lleol sydd yn cydweithio i gefnogi plant sydd yn byw yn yr ardal.

savethechildren.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig Cymru a Lloegr (213890) Yr Alban (SC039570) ac Ynys Manaw (199)
Gellir gweld ein Polisi Preifatrwydd [yma](#). Cymerwch amser i ddarllen trwy'r manylion ynghylch sut rydym yn casglu, defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth. Cysylltwch â mi unrhyw bryd os hoffech newid y ffordd yr ydym yn cysylltu â chi neu os hoffech roi'r gorau i glywed oddi wrthym yn gyfan gwbl.



Mae Betws yng ngogledd orllewin Casnewydd ac yn ardal ag un o'r cyfraddau tlodi uchaf yng Nghymru. Mae yno hefyd ymdeimlad cryf o gymuned.

Dechreuodd rhaglen CAGB yn 2019 ac ers hynny rydym wedi gallu ymateb i anghenion teuluoedd yn ystod pandemig COVID-19 ac wedi dysgu llawer ynghylch sut i gydweithio i gefnogi teuluoedd sy'n wynebu heriau fel yr argyfwng costau byw presennol. Rydym yn gwrandao ar yr angen ac yn cydweithio i gyflwyno rhaglenni i fynd i'r afael â'r materion, yn rhoi ymagweddau a ffyrdd newydd o weithio ar brawf ac yn rhannu'r hyn yr ydym yn ei ddysgu mor eang ag y gallwn i gynyddu ein heffaith y tu hwnt i Betws.

"Mae CAGB wedi gwella gweithio cydweithredol ar draws y system addysg gynnar yn Betws ac wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i rieni. Er enghraifft, rydym wedi gallu gweithio'n agosach gydag lechyd er mwyn i rieni allu defnyddio gwasanaethau'n fwy effeithiol. Rydym wedi defnyddio cymorth er mwyn i'n staff ddeall materion iechyd meddwl cymhleth a rhoi'r offer sydd ei angen arnynt i gefnogi teuluoedd."

- Partner Cymuned Addysg Gynnar Betws



Llun: Francesca Jones / Achub y Plant

Ehangu

Datblygodd y syniad ar gyfer y prosiect Ehangu yn Nhrelái o'n gwaith ym Metws gyda Chymuned Addysg Gynnar Betws. Rydym wedi bod yn cefnogi Gweithredu dros Gaerau a Threlái (ACE) a Chanolfan Blant Trelái a Chaerau (ECCC) i ddatblygu cynllun peilot newid systemau yn seiliedig ar le.

Roedd rhieni, plant a phartneriaid yn y gymuned eisiau mannau awyr agored diogel i deuluoedd a chysylltiadau cymunedol cryfach, felly datblygwyd tri man gwyrdd awyr agored yn yr ardal.

Mae'r mannau awyr agored yn golygu bod yna ardaloedd diogel i chwarae a dysgu i blant dan 5 oed ac i rieni gysylltu ag eraill yn y gymuned. Mae cyfle hefyd i feithrin ymddiriedaeth a chynyddu cydweithio rhwng teuluoedd â phlant ifanc, ysgolion, sefydliadau cymunedol a phobl ifanc.



Llun: Jonathan Hyams / Achub y Plant

Mae gan bob cymuned, ardal a system leol heriau a chryfderau gwahanol. Rydym yn defnyddio ein dull newid systemau seiliedig ar le i brofi'r elfennau allweddol sydd eu hangen.

savethechildren.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig Cymru a Lloegr (213890) Yr Alban (SC039570) ac Ynys Manaw (199)
Gellir gweld ein Polisi Preifatrwydd [yma](#). Cymerwch amser i ddarllen trwy'r manylion ynghylch sut rydym yn casglu, defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth. Cysylltwch â mi unrhyw bryd os hoffech newid y ffordd yr ydym yn cysylltu â chi neu os hoffech roi'r gorau i glywed oddi wrthym yn gyfan gwbl.



Pŵer y Llais

Prosiect ymchwil cyfranogol sy'n edrych ar effaith tlodi ar fywydau pobl ifanc yng Nghymru yw Pŵer y Llais. Mae gweithdai ymchwil wedi cael eu cynnal gyda dros 40 o bobl ifanc ar draws Caerdydd, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf a Phrestatyn.

Mae Pŵer Y Llais yn anelu at cydbwyso pŵer gan fynd â lleisiau a syniadau pobl ifanc at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, herio'r stigma sy'n gysylltiedig â thlodi a gwneud newid cadarnhaol mewn polisiau a systemau sy'n effeithio ar fywydau plant.

Mae ffocws arbennig ar faterion yn ymwneud ag anabledd a phrofiad gofalmwr ifanc fel rhan o flaenoriaethu pobl y mae tlodi yn effeithio fwyaf arnynt. Bydd y dystiolaeth o'r ymchwil yn cael ei lansio yn hydref 2024.



Ysgolion Bro Castell-Nedd Port Talbot

Mae Achub y Plant Cymru wedi bod yn gweithio gyda Thîm Gwella Ysgolion awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot ar dreialu dull clwstwr ar draws 9 ysgol i asesu effaith ffocws ysgolion bro Llywodraeth Cymru. Mae wedi cael ei chyflwyno ar draws cymuned ddysgu Llangatwg, gan gynnwys Ysgol Gymunedol Llangatwg, Blaendulais, Blaengwrach, Catwg, Cillfriw, Creunant, Cwmnedd, Maesmarchog ac Ysgolion Cynradd Ynysfach.

Lansiwyd y peilot ym mis Ebrill 2023, ac mae'n cael ei staffio gan bedwar Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd, Rheolwr Ysgolion Bro, a'i gydgyssylltu gan Swyddog Cymorth Addysg.



Cefnogir y peilot gan bartneriaid gwerthuso yn Achub y Plant a Phrifysgol Abertawe. Rydym yn y camau olaf o lunio'r adroddiad a'i rannu â'n partneriaid awdurdod lleol i gynllunio digwyddiadau a chyfleoedd lledaenu o fis Medi 2024.

savethechildren.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig Cymru a Lloegr (213890) Yr Alban (SC039570) ac Ynys Manaw (199)
Gellir gweld ein Polisi Preifatrwydd [yma](#). Cymerwch amser i ddarllen trwy'r manylion ynghylch sut rydym yn casglu, defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth. Cysylltwch â mi unrhyw bryd os hoffech newid y ffordd yr ydym yn cysylltu â chi neu os hoffech roi'r gorau i glywed oddi wrthym yn gyfan gwbl.



Haf o Chwarae

Mae 'Haf o Chwarae' yn brosiect gan Achub y Plant sydd wedi'i sefydlu i ariannu partneriaid lleol i helpu teuluoedd ar incwm isel i fwynhau hwyl, ffrindiau a rhyddid trwy gydol misoedd yr haf yng nghanol yr argyfwng costau byw.

Gan weithio ochr yn ochr â phartneriaid o bob cwr o Gymru mae teuluoedd yn cael canolbwyntio ar wneud atgofion plentyndod trwy gymryd rhan mewn diwrnodau hwyl, teithiau i'r traeth a Sain Ffagan yn hytrach na phoeni am arian dyddiol.



Llun: Achub y Plant

DEC Cymru

Pan fydd trychineb yn digwydd, rydym yn gweithio'n agos gydag aelod-asiantaethau y Pwyllgor Trychinebau ac Argyfyngau yng Nghymru i godi arian i ddarparu bwyd, lloches a meddyginiaethau sydd yn achub bywydau yn syth i'r man lle mae eu hangen fwyaf. Yn yr wythnosau a'r misoedd ar ôl argyfwng, rydym yn helpu i gadw plant yn ddiogel ac yn cynorthwyo teuluoedd i ailadeiladu eu bywydau. O apeliadau i helpu gyda'r argyfwng dyngarol yn Afghanistan ac Wcráin, mae caredigrwydd y cyhoedd yng Nghymru yn dod i'r amlwg yn syth gydag ysgolion, grwpiau cymunedol, grwpiau ffydd, busnesau, sectorau'r celfyddydau a diwylliant yn meddwl am ffyrdd creadigol o godi arian.



Llun: Achub y Plant

Mae ein rhwydwaith rhagorol o gefnogwyr a gwirfoddolwyr yng Nghymru yn rhoi o'u hamser, eu hangerdd a'u hegri i greu newid i blant. Ni fyddem yn gallu parhau i wneud y gwaith yr ydym yn ei wneud hebddynt.

savethechildren.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig Cymru a Lloegr (213890) Yr Alban (SC039570) ac Ynys Manaw (199)
Gellir gweld ein Polisi Preifatrwydd [yma](#). Cymerwch amser i ddarllen trwy'r manylion ynghylch sut rydym yn casglu, defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth. Cysylltwch â mi unrhyw bryd os hoffech newid y ffordd yr ydym yn cysylltu â chi neu os hoffech roi'r gorau i glywed oddi wrthym yn gyfan gwbl.



EIN CEFNOGWYR

A'N GWIRFODDOLWYR



Llun: Eurgain Haf / Achub y Plant

Mae gennym ganghennau ar draws y wlad, o Ynys Môn i Aberdâr, yn ein helpu ni i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith trwy drefnu sgysiau yn eu cymunedau, sicrhau bod gennym bresenoldeb mewn digwyddiadau mawr fel yr Eisteddfod Genedlaethol, a threfnu digwyddiadau codi arian i gefnogi ein gwaith yng Nghymru ac ym mhob cwr o'r byd. O gynllunio noson gwis neu ginio gala i gerdded llwybr arfordir Cymru yn rhithiol mewn siwmperi Nadolig neu roi cynnig ar weiren wib ar gyflymder o fwy na 100 milltir yr awr – does dim terfyn ar eu hymrwymiad i'r elusen.

Mae gennym hefyd ddwy siop gymunedol yn yr Wyddgrug a Machynlleth sydd yn rhoi cipolwg craff ar ein gwaith ac yn helpu i godi arian hanfodol.

Os hoffech wirfoddoli i Achub y Plant, ebostiwch volunteersupport@savethechildren.org.uk.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, ebostiwch walesinfo@savethechildren.org.uk neu ewch i savethechildren.org.uk/wales

Facebook: @savechildrenwales

X: @savechildrencym

Instagram: @savethechildrencymru

Ymwadiad Delweddau – mae'r delweddau a ddefnyddir yn y cyhoeddiad hwn at ddibenion enghreifftiol yn unig ac nid yw eu cynnwys yn adlewyrchu eu sefyllfa ariannol mewn unrhyw ffordd.

savethechildren.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig Cymru a Lloegr (213890) Yr Alban (SC039570) ac Ynys Manaw (199)

Gellir gweld ein Polisi Preifatrwydd [yma](#). Cymerwch amser i ddarllen trwy'r manylion ynghylch sut rydym yn casglu, defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth. Cysylltwch â mi unrhyw bryd os hoffech newid y ffordd yr ydym yn cysylltu â chi neu os hoffech roi'r gorau i glywed oddi wrthym yn gyfan gwbl.

